**Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I: Cyfranogwyr ymchwil i mewn i'r gost ddatblygiadau seilwaith

Date: 21 Rhagfyr 2018

Annwyl Gyfaill,

**YMCHWIL I MEWN I'R GOST O DDATBLYGIADAU SEILWAITH YNG NGHYMRU I DDATBLYGWYR, AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL A CHYMUNEDAU**

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ymgynghoriad a oedd yn cynnig newidiadau i gydsynio seilwaith yng Nghymru. Cyhoeddir ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth ar yr ymgynghoriad hwn ym mis Tachwedd.

Er mwyn cynorthwyo datblygu proses cydsynio seilwaith pwrpasol yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn deall y costau gweithdrefnol presennol a rhagolygol i randdeiliaid am gymryd rhan mewn prosesau cydsynio seilwaith. Bydd hyn hefyd yn ein cynorthwyo wrth bennu lefel briodol o iawndal i Awdurdodau Cynllunio Lleol ("ACLlau") i adennill eu costau wrth gyfrannu at unrhyw ran statudol o broses cydsynio newydd, i penderfynu ar lefelau ffioedd priodol ar gyfer ymgeiswyr ac i sicrhau bod costau'n cael eu deall o'r lefelau presennol o gymryd rhan mewn proses ganiatáu seilwaith.

Penodwyd Arup i ymgymryd ag ymchwil ar ein rhan. Bydd yr ymchwil hwn yn ystyried ceisiadau a dderbynnir gan awdurdodau cydsynio a'r costau gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn prosesau cyfredol ar gyfer cydnsynio seilwaith.

Y dasg gyntaf oedd y casgliad o ddata ar geisiadau a dderbynnir gan awdurdodau cydsynio yng Nghymru a Dyfroedd Cymru dros y pum mlynedd blaenorol. Cafwyd y wybodaeth hon drwy astudiaeth ddesg o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ac, os oedd angen rhagor o wybodaeth, trwy geisiadau data i sampl o ACLlau.

Bydd yr ail dasg yn cynnwys pennu'r costau gweithdrefnol presennol a rhagolygol i rhanddeiliaid mewn prosesau cydsynio seilwaith. I ymgymryd â'r ymarfer hwn, byddwn yn gofyn am ddetholiad o gostau gweithdrefnol gwirioneddol ac amcangyfrifedig o sampl o ACLlau, awdurdodau pennu eraill a ddatblygwyr. Bydd proses adrodd ddienw yn cael ei fabwysiadu.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line: 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400
Email: planning.directorate@gov.wales
Ebost: planning.directorate@llyw.cymru

Mae cais am wybodaeth atotedig gan Arup yn gysylltiedig â'r ail dasg a ddisgrifir uchod. Mae’r cais hwn yn canolbwyntio ar wybodaeth nad yw ar gael trwy ffynonellau cyhoeddedig, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd rhan yn y prosiect ymchwil pwysig hwn.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau ynglŷn â’r ymchwil hwn, cysylltwch â Lewis Thomas (03000 25 3201) neu Owain Williams (03000 25 1715), sy'n hapus i gynorthwyo.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lewis Thomas**
**Pennaeth Cydsynio Genedlaethol**
**Y Gyfarwyddiaeth Cynllunio**